Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin
**Parc Gittio**
**Heol Llwynhendy**
**Llwynhendy**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 9DP**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2015**

## Cyd-destun

Mae Canolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) awdurdod lleol a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Agorodd y ganolfan ym Medi 2013 ac mae'n darparu addysg ar gyfer hyd at 42 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a 4 sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (AYECh).

Mae'r UCD ar ddau safle. Mae un ym mhentref Pwll, ar gyrion gorllewinol Llanelli, ac mae'r llall ym Mhentref Llwynhendy, ar ochr ddwyreiniol y dref. Mae strwythur rheoli llinell integredig gan y ddau safle, ac maent yn cael eu goruchwylio gan un pwyllgor rheoli. Nod yr UCD yw dychwelyd disgyblion i addysg brif ffrwd, neu eu cynorthwyo i i fynd i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae 27 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae bron yr holl ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd eraill hefyd. Oedran cyfnod allweddol 4 yw pob un o'r disgyblion, ac mae anghenion addysgol arbennig ganddynt i gyd. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan 7% o ddisgyblion. Mae 26% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae 19% yn derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol. Daw bron yr holl ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith.

Hwn yw'r arolygiad cyntaf o Ganolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin. Penodwyd Pennaeth y Ganolfan ym Medi 2014. Penodwyd Rheolwr y Ganolfan yn ddirprwy bennaeth y ganolfan yn Ionawr 2015.

## Crynodeb

| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Digonol** |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr UCD yn ddigonol oherwydd:

- Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill ystod briodol o gymwysterau mewn cyrsiau achrededig
- Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion
- Ceir trefniadau partneriaeth effeithiol gyda rhieni, asiantaethau arbenigol a cholegau addysg bellach
- Mae pawb sy'n gadael yr ysgol yn symud ymlaen i golegau addysg bellach, dysgu yn y gwaith neu gyflogaeth

Fodd bynnag:

- Nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymgysylltu'n ddigon da mewn gwersi
- Nid yw staff yn cymhwyso strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad yn gyson ar draws yr UCD; o ganlyniad, mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn achosi pryder
- Mae presenoldeb yn annerbyniol o isel
- Dim ond megis dechrau cael ei datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm
- Nid yw'r adeilad ar safle Llwynhendy yn bodloni anghenion cymdeithasol a dysgu'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r UCD yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r tîm rheoli sydd newydd ei benodi wedi cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd sy'n dechrau dylanwadu ar safonau disgyblion
- Mae'r UCD yn gweithio'n agos â phartneriaid i ddarparu cymorth ac arweiniad ychwanegol i ddisgyblion
- Mae'r tîm arweinyddiaeth yn gwbl ymroddedig i'r ganolfan a'i disgyblion ac mae pob un o'r staff yn rhannu'r ymrwymiad hwn

Fodd bynnag:

- Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn anghyson o ran y cymorth sy'n cael ei ddarparu i'r tîm rheoli

- Nid yw prosesau hunanarfarnu yn ddigon cadarn ac nid ydynt yn cynnwys nifer o feysydd pwysig
- Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd ati'n systematig i ddadansoddi data perfformiad disgyblion

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Gwella ymddygiad disgyblion a sicrhau bod pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gyson

A4 Gwella'r broses hunanarfarnu ac ansawdd hunanarfarnu

A5 Sicrhau bod yr UCD, y pwyllgor rheoli a'r awdurdod lleol yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd i godi safonau

A6 Gwella'r adeiladau i sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd diogel ac yn bodloni anghenion dysgu disgyblion

A7 Gwella'r ddarpariaeth TGCh ar draws y cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol yn yr UCD hon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD ryw 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol gan ddisgyblion sy'n mynychu Canolfan Addysgu a Dysgu Sir Gaerfyrddin. Mae hanes gwael o bresenoldeb a gwaharddiadau gan y rhan fwyaf ohonynt yn eu hysgolion prif ffrwd.

Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau. Maent yn gwrando'n dda ar eu hathrawon, yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mewn mwyafrif o wersi, maent yn cofio dysgu blaenorol yn dda, yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn cymhwyso'u medrau meddwl i destunau newydd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas. Nid ydynt yn ymddwyn yn dda, maent yn amharu ar ddysgu disgyblion eraill ac nid ydynt yn gweithio hyd orau eu gallu.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni gyda chyfartaleddau cenedlaethol nac i ddadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill ystod o gymwysterau mewn cyrsiau achredig sy'n cyfateb yn dda i'w galluoedd ac anghenion. Er enghraifft, yn 2015, llwyddodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 i basio TGAU Saesneg a mathemateg, a gadawodd bob un o'r disgyblion gydag o leiaf dri chymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys ystod o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 2. Llwyddodd lleiafrif o ddisgyblion i ennill pedwar TGAU. Helpodd y cyflawniadau hyn i'r rhai a oedd yn gadael yr ysgol i symud ymlaen i leoliadau priodol mewn colegau addysg bellach leol.

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd yng ngofal eu hawdurdod lleol.

Mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd. Maent yn ysgrifennu ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd ac at ddibenion gwahanol. Mae eu hysgrifennu wedi'i drefnu'n dda yn baragraffau, ac mae'n defnyddio ystod addas o eirfa gyffredinol a geirfa penodol i bwnc. Maent yn gwella eu medrau darllen ac yn datblygu'r hyder i ddarllen ar goedd yn y dosbarth. Maent yn gwneud defnydd da o'r medrau hyn i ymchwilio i wybodaeth a dadansoddi testun. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn siarad a gwrando'n dda mewn perthynas â'u hoedran. Er enghraifft, mewn tiwtorialau a gwersi Saesneg, maent yn ymarfer eu medrau iaith ac yn ateb cwestiynau yn hyderus, gan roi rhesymau am eu hatebion pan ofynnir iddynt. Mae tua hanner y disgyblion yn dangos medrau rhif yn unol â'u hoedran a'u gallu. Maent yn cymhwyso pedair rheol rhif yn gywir ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r mathau priodol o graffiau a siartiau ar gyfer cyflwyno mathau gwahanol o ddata. Maent yn defnyddio offer i lunio graffiau a siapiau geometrig. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion, fodd bynnag, yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith ac

nid ydynt yn gweithio'n gywir. Mae ychydig o ddisgyblion yn dewis dulliau priodol ar gyfer cyfrifo wrth ddatrys problemau bywyd go iawn. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm nac mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'r medrau TGCh sydd eu hangen arnynt yn ddigon da i gefnogi'u dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn datblygu'u medrau iaith Gymraeg yn briodol ac yn datblygu dealltwriaeth addas o ddiwylliant Cymru.

**Lles: Anfoddhaol**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr UCD ac yn teimlo bod staff yn eu parchu. Nid yw bron i hanner y disgyblion yn cytuno bod yr UCD yn eu helpu i fod yn iach. Mae ychydig o ddisgyblion yn deall buddion bwyta ffrwythau a deiet cytbwys. Fodd bynnag, er bod staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw, nid yw llawer o ddisgyblion wedi datblygu agweddau cadarnhaol at wella eu deiet. Maent yn parhau i ddod â diodydd swigod a diodydd egni a chreision i'r ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwrthod cymryd rhan mewn addysg gorfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn ysmygu ac mae ychydig yn dod â thanwyr i'r ysgol.

Mae dealltwriaeth dda o fwlio gan ddisgyblion, yn enwedig seiber fwlio, ac maent yn gwybod beth i wneud ac â phwy i siarad os oes ganddynt broblem. Maent yn trafod materion pwysig a allai effeithio ar eu bywydau, fel cyffuriau, perthnasoedd a chydsyniad, ac e-ddiogelwch yn ystod sesiynau gwerthfawr gyda swyddog cyswllt yr heddlu.

Mae cyfradd presenoldeb disgyblion, sef 75%, yn anfoddhaol. Fodd bynnag, mae lefelau presenoldeb ychydig o ddisgyblion gryn dipyn yn uwch na phan oeddent yn eu hysgolion prif ffrwd.

Nid oes unrhyw waharddiadau parhaol wedi'u gwneud, a chafwyd 32 o ddiwrnodau o waharddiadau penodedig ers sefydlu'r UCD. Mae llawer o ddigwyddiadau lle mae disgyblion yn gadael gwersi ar ôl gwrthod gweithio. Nid yw staff yn cofnodi hyd yr amser hwn a dreulir allan o wersi. O ganlyniad, nid yw staff a disgyblion yn ymwybodol o faint o addysg a gollir.

Mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn wael iawn. Maent yn ymosodol tuag at staff ac ymwelwyr, yn gwrthod cymryd rhan mewn gwersi yn rheolaidd ac yn gwirio'u ffonau symudol yn agored. Mae rhegi yn gyffredin. Mae ychydig yn difrodi'r adeilad ac yn rhoi eu hunain mewn perygl trwy ddringo ar y celfi. Mewn ychydig o achosion, nid yw staff yn herio'r ymddygiad gwael hwn.

Mae disgyblion yn myfyrio'n rheolaidd ar eu dysgu eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u camau nesaf. Mae cyngor yr ysgol yn cyfarfod unwaith y tymor. Mae disgyblion wedi gwneud sylwadau ar y polisi ymddygiad a materion yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, ond mae gwaith y cyngor yn rhy gyfyngedig. Nid ydynt yn chwarae rhan lawn yng ngwaith yr UCD. Ar brydiau, mae disgyblion yn colli diddordeb yn y cyfarfodydd ac yn gadael.

Mae'r UCD yn asesu'r holl ddisgyblion pan fyddant yn dod i mewn ar gyfer llythrennedd emosiynol. Cawsant eu hailasesu yn nhymor yr haf 2015. Mae 14 o ddisgyblion wedi dangos gwelliant, mae wyth wedi aros yr un fath, ac mae sgorau is gan bump ohonynt.

Lle mae disgyblion yn mynychu ac yn cymryd diddordeb, maent yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen yn llwyddiannus at ddysgu pellach. Fodd bynnag, nid ydynt yn gallu datblygu dealltwriaeth o'r byd gwaith ar hyn o bryd, gan nad oes rhaglen ffurfiol o brofiad gwaith. Nid yw disgyblion yn ymwneud â gwaith gyda'r gymuned leol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gyda ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r UCD wedi cynyddu ystod y cymwysterau mewn cyrsiau achredig y gall disgyblion eu dewis yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion, gan fod mynediad annigonol at gyrsiau galwedigaethol. Mae'r cwricwlwm ar safle Pwll wedi'i addasu'n dda i gynnwys mwy o ffocws ar weithgarwch corfforol a mynediad i ysgolion coedwig. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau pwysig, fel gweithio gydag eraill a datrys problemau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd dysgu gwerthfawr hyn ar gael i ddisgyblion ar safle Llwynhendy.

Mae cynllun gwaith cynhwysfawr yn ei le ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) sy'n cynnwys addysg rhyw, iechyd a gyrfaoedd. Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer pynciau craidd wedi'u trefnu'n dda gyda thasgau gwahaniaethol, sylw amlwg i fedrau a chyfleoedd ar gyfer asesu. Mewn lleiafrif o bynciau, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio tymor canolig wedi'i ddatblygu'n ddigonol nac yn orffenedig, ac nid yw'n nodi tasgau gwahaniaethol.

Cyfyngedig yw'r cyfleoedd cynlluniedig ar gyfer gweithgareddau hamdden disgyblion yn ystod egwyl ac amser cinio. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn segur ac mae hyn yn cyfrannu at densiwn rhwng disgyblion ac awyrgylch ansefydlog. Mae'r UCD wedi nodi'r angen i ddatblygu gweithgareddau allgyrsiol yn ei gynllun i ddatblygu'r ganolfan.

Mae'r UCD wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr â Gyrfa Cymru a Choleg Sir Gâr i ddatblygu addysg yn gysylltiedig â gwaith. Er bod medrau bywyd yn cael eu hymgorffori mewn ychydig o bynciau, cyfleoedd cyfyngedig y mae'r UCD yn eu darparu ar gyfer gwaith ar fedrau byw'n annibynnol a pharatoi ar gyfer cyfrifoldebau bywyd oedolion.

Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, meddwl a rhifedd yn effeithiol. Mae'r UCD yn nodi disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn dda ac yn darparu rhaglenni ymyrryd priodol ar gyfer y disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfle i ddefnyddio TGCh ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddatblygu'u medrau TGCh.

Mae nifer o arddangosiadau dwyieithog deniadol gan y ganolfan o amgylch y safle. Mae disgyblion yn cwblhau tasgau darllen ac ysgrifennu mewn gwersi Cymraeg ac yn dysgu am hanes a diwylliant Cymru. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio Cymraeg yn achlysurol mewn gwersi.

Mae'r UCD yn annog trafodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang ac ystod gyfyngedig iawn o themâu amgylcheddol a chynaliadwyedd drwy'r cynllun gwaith ABCh. Fodd bynnag, ychydig o gynllunio sydd at addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) ar draws gweddill y cwricwlwm. Nid oes unrhyw anogaeth i ailgylchu na bod yn ymwybodol o'r amgylchedd o amgylch y ganolfan.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus. Yn y rhan fwyaf o wersi, maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod addas o strategaethau ac adnoddau addysgu sy'n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd y disgyblion. Mae hyn yn helpu mwyafrif o ddisgyblion i ganolbwyntio ar y dasg a gwneud cynnydd.

Mewn llawer o wersi, mae gwybodaeth bynciol gyfoes, dda a disgwyliadau uchel o waith ac ymddygiad disgyblion gan athrawon a chynorthwywyr addysgu. Maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda'r disgyblion, yn pennu ffiniau clir ac yn gyson o ran cymhwyso polisi rheoli ymddygiad y ganolfan. Yn gyffredinol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r dull hwn, yn rhoi sylw mewn gwersi ac yn ymddwyn yn briodol.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da. Yn y gwersi hyn, mae ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Nid yw athrawon yn adolygu cynnydd disgyblion yn effeithiol mewn ychydig o wersi, ac mae gormod o'r dysgu yn cael ei gyfeirio gan athrawon.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn brydlon ac maent bron bob amser yn cynnwys sylwadau cadarnhaol er mwyn annog disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r marcio yn gyson ar draws y ganolfan ac nid yw bob amser yn dweud wrth ddisgyblion beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Lle mae diddordeb disgyblion yn cael ei ennyn, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr iddynt fyfyrio ar eu dysgu eu hunain.

Mae uwch arweinwyr wedi rhoi system ddefnyddiol ar waith yn ddiweddar i olrhain deilliannau disgyblion. O ganlyniad, gall athrawon fonitro cynnydd disgyblion erbyn hyn ac maent yn dechrau gosod targedau pwnc uchelgeisiol ar gyfer disgyblion unigol.

Mae'r UCD yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am gynnydd disgyblion drwy adroddiadau rheolaidd sy'n llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r UCD yn defnyddio ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys trafodaethau yn ystod amser tiwtorial a rhaglen ddefnyddiol wedi'i chynllunio i helpu disgyblion archwilio'u teimladau ac i weithio allan sut i wella eu hymatebion i eraill.

Mae'r UCD yn gweithio'n dda gydag ystod eang o asiantaethau allweddol i ddarparu cymorth amserol i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsela a mentora ar gyfer disgyblion yn cael eu darparu gan y gwasanaeth seicoleg addysgol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Yn ddiweddar, mae'r UCD wedi adolygu a gwella ei gweithdrefn derbyniadau. Erbyn hyn, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddisgyblion cyn iddynt ymuno â'r UCD. Mae staff nawr yn asesu lles emosiynol disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr UCD. Mae hyn yn galluogi staff i gynllunio ymyriadau priodol ac olrhain cynnydd disgyblion.

Ceir polisi ymddygiad priodol a system pwyntiau wedi'i chysylltu â gwobrau. Fodd bynnag, nid yw staff yn cymhwyso'r polisi hwn yn gyson. Nid ydynt bob amser yn herio ymddygiad gwael disgyblion. Er enghraifft, pan fydd disgyblion yn hwyr i wersi, nid ydynt yn colli pwyntiau; maent yn eistedd ar fyrddau yn ddiatal, ac yn defnyddio'u ffonau symudol yn agored.

Mae'r UCD wedi cynhyrchu llyfryn gwybodaeth i helpu disgyblion ddeall gwaith yr UCD, beth allant ei ddisgwyl gan staff a sut y dylent ymddwyn. Fodd bynnag, mae hyn yn mynnu lefel uchel o fedr darllen ac yn awgrymu bod yr UCD yn disgwyl llai gan y rhai sy'n mynychu safle Pwll.

Caiff anghenion dysgu ychwanegol disgyblion eu nodi'n ofalus a rhoddir cymorth ychwanegol priodol iddynt lle bo angen. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio cynlluniau addysg unigol. Mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn wrth osod ac adolygu eu targedau.

Nid yw agweddau ar drefniadau'r UCD ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion. Rhannodd y tîm arolygu y diffygion hyn gyda'r UCD yn ystod yr ymweliad.

**Yr amgylchedd dysgu: Anfoddhaol**

Nod yr UCD yw bod yn gymuned drefnus a chyfeillgar lle bydd disgyblion yn datblygu'r medrau sydd eu hangen i integreiddio'n llwyddiannus yn yr ysgol neu symud ymlaen at ddysgu pellach neu gyflogaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i'r ethos gofalgar a ddatblygwyd gan dîm y staff. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r UCD nac yn ymgysylltu â'r uned yn ddigon da.

Mae'r adeilad ar safle Pwll wedi'i ailwampio'n ddiweddar ac mae'n cynnig amgylchedd dysgu ysgogol, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd ac adnoddau addas ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

Mae'r adeilad ar safle Llwynhendy mewn cyflwr gwael iawn. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn darparu amgylchedd dysgu addas. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd cymunedol yn ddigroeso ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n wael. Mae un o'r ystafelloedd dosbarth ar safle Llwynhendy yn rhy fach ar gyfer dosbarth llawn, ac mae'r ardal a ddynodwyd at ddefnydd amser allan o'r dosbarth yn fan anniogel ac anaddas at y diben hwn. Nid yw'r ardal awyr agored yn Llwynhendy yn ddiogel nac yn addas i'r diben. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau dysgu ar y ddau safle i fodloni anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh ar y ddau safle wedi'i datblygu'n ddigonol ac mae'n effeithio'n negyddol ar ddysgu'r disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn gwbl ymroddedig i'r ganolfan a'i disgyblion, ac mae pob un o'r staff yn rhannu'r ymrwymiad hwn. Maent yn ymgynghori â'r staff yn rheolaidd ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngwaith y ganolfan. Mae'r cyfarfodydd staff wythnosol newydd yn gyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth ac yn galluogi pob un o'r staff i wneud cyfraniadau cadarnhaol.

Mae gan bennaeth y ganolfan weledigaeth ar gyfer y ganolfan sy'n rhoi ffocws cadarn ar les, ond nid oes cynllunio digon strategol ar gyfer y weledigaeth hon. Nid yw'r staff a'r pwyllgor rheoli yn glir ynghylch blaenoriaethau'r UCD. Nid yw'r tîm arweinyddiaeth yn defnyddio'r data a thystiolaeth arall yn ddigon effeithiol i gael darlun cywir o berfformiad y ganolfan, ac yna penderfynu ar dargedau a blaenoriaethau addas.

Mae'r tîm arweinyddiaeth newydd wedi gwneud newidiadau buddiol sydd wedi arwain at welliannau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau wedi'u hailwampio ar safle Pwll a mwy o ffocws ar addysgu a dysgu, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu. Megis dechrau cael eu datblygu y mae llawer o fentrau; fodd bynnag, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar feysydd pwysig i'w datblygu, fel presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

Mae rolau a chyfrifoldebau yn yr UCD wedi'u diffinio'n briodol ac mae staff yn deall rolau'r tîm arweinyddiaeth yn dda. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i aelodau staff y tu allan i'r tîm arweinyddiaeth gael profiad o arwain. O ganlyniad, caiff gormod o amser yr uwch reolwyr ei dreulio'n delio â materion gweithredol o ddydd i ddydd ar draul cynllunio strategol.

Ceir trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad a chanllawiau clir a defnyddiol sy'n pwysleisio pwysigrwydd gosod targedau mesuradwy. Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff adolygu'r targedau hyn a thrafod eu cynnydd yn eu herbyn. Er hyn, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi methu mynd i'r afael â materion pwysig yn ymwneud â thanberfformio.

Mae'r pwyllgor rheoli wedi gwella eu prosesau ac wedi cynyddu eu cyfranogiad gweithgar wrth redeg y ganolfan o ddydd i ddydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae aelodau'r pwyllgor wedi cael eu cynnwys mewn arsylwadau o wersi ac wrth graffu ar lyfrau. Maent hefyd wedi sefydlu tri is-bwyllgor newydd sy'n cynllunio i ganolbwyntio'n fanylach ar waith y ganolfan. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor a'r awdurdod lleol wedi darparu arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol ar gyfer y tîm arweinyddiaeth newydd, amhrofiadol ac maent wedi methu rhoi trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer pennaeth y ganolfan. Nid oes dogfen offeryn llywodraethu gan y pwyllgor rheoli, ac mae hyn yn ofyniad statudol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Yn ddiweddar, mae’r UCD wedi cyflwyno gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol ar gyfer monitro’r addysgu a’r dysgu. Mae arweinwyr wedi defnyddio’r canlyniadau monitro yn dda i roi newid ar waith, ac mae hyn wedi arwain at welliannau cynnar yn ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, nid yw prosesau’r UCD ar gyfer monitro ac arfarnu effeithiolrwydd systemau a pholisïau eraill, fel y rhai ar gyfer rheoli ymddygiad a phresenoldeb, yn rhai cadarn, ac felly nid ydynt yn arwain at welliant.

Ceir trefniadau newydd addas ar gyfer casglu ac olrhain data. Mae enghreifftiau diweddar lle mae’r UCD wedi defnyddio data disgyblion i gynllunio’n briodol ar gyfer ymyriadau. Fodd bynnag, nid yw’r UCD yn casglu, dadansoddi nac yn arfarnu data disgyblion yn ddigon da ac felly nid yw’n ei ddefnyddio’n effeithiol i fodloni anghenion a gwella deilliannau pob disgybl.

Mae adroddiad hunanarfarnu’r UCD yn gwneud defnydd addas o dystiolaeth fel yr honno a geir o arsylwadau o wersi a barnau disgyblion, ac mae’n arfarnol ar y cyfan. Cafodd staff ac aelodau’r pwyllgor rheoli eu cynnwys yn briodol wrth ysgrifennu’r adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiad yn cynnwys data nac arfarniadau manwl ar agweddau pwysig fel presenoldeb, ymddygiad a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid yw’r broses hunanarfarnu yn rhoi asesiad digon cywir o gryfderau a gwendidau’r UCD.

Mae’r UCD wedi nodi nifer o flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gormod ohonynt, fodd bynnag, ac maent yn rhy eang. Yn ogystal, mae gwendidau yn hunanarfarniad a chynlluniau gwella’r UCD yn golygu nad yw staff wedi canolbwyntio’u holl waith gwella yn y meysydd mwyaf priodol. Nid oes unrhyw dargedau mesuradwy, na threfniadau ar gyfer monitro ac arfarnu yn y cynlluniau gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau’r UCD â rhieni a gofalwyr yn gryf. Mae rhieni’n teimlo eu bod yn gallu cysylltu ag athrawon pan fo angen, ac yn teimlo bod cefnogaeth dda iddynt. Mae staff yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am gynnydd drwy alwadau ffôn rheolaidd, cyfarfodydd adolygu ddwywaith y flwyddyn ac adroddiadau blynyddol.

Mae partneriaethau sefydledig gydag ystod o asiantaethau yn galluogi’r UCD i ddarparu cyngor amserol i staff a chymorth arbenigol i ddisgyblion unigol. Er enghraifft, mae’n gweithio’n effeithiol gyda CAMHS ac Iechyd Da i gefnogi iechyd a lles emosiynol myfyrwyr.

Mae gan yr UCD gysylltiadau defnyddiol â cholegau lleol a nifer o ddarparwyr dysgu 14-19, ac mae’n defnyddio’r rhain yn dda. Mae gweithwyr allweddol yn cynorthwyo disgyblion i wneud penderfyniadau a sicrhau bod cyrsiau galwedigaethol yn cyfateb i’w gallu ac anghenion. Lle mae darparwyr yn gweithio gyda’i gilydd i drefnu lleoliadau deuol, mae staff, disgyblion a rhieni yn adrodd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion.

Mae staff yn elwa ar gysylltiadau proffesiynol effeithiol gydag ysgolion uwchradd lleol. Fodd bynnag, nid yw’r cysylltiadau hyn yn cael eu defnyddio’n ddigon da i gynnig

cyfleoedd ailintegreiddio i ddisgyblion.  Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan ysgolion â chofrestriad deuol am ddisgyblion wrth iddynt gychwyn yn yr UCD yn rhy amrywiol.

Pan fydd disgyblion yn cael eu haddysgu oddi ar y safle bob wythnos, nid yw'n eglur sut mae'r UCD yn cysylltu â'r darparwyr hyn ac yn arfarnu'r ddarpariaeth ac effaith ar gyflawniad disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae niferoedd priodol o staff i gyflwyno'r cwricwlwm a chynorthwyo disgyblion.  Mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith y ganolfan ac maent yn cael eu defnyddio'n briodol yn unol ag arbenigeddau pwnc.  Mae'r UCD wedi gwella ymhellach y ffordd y mae'n defnyddio cynorthwywyr addysgu gan eu bod wedi dechrau cyflwyno sesiynau ymyrryd i ddisgyblion yn ddiweddar.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y datblygiad hwn.  Caiff cynorthwywyr addysgu eu cynnwys yn y trefniadau rheoli perfformiad.

Mae gan y rhan fwyaf o staff gymwysterau a phrofiad addas i fodloni anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion.  Mae ychydig o aelodau staff yn gysylltiedig â rhwydweithiau arfer broffesiynol.  Maent wedi rhannu arfer dda o'r UCD gydag ysgolion lleol ac UCDau eraill.

Mae staff yn elwa ar raglen hyfforddi foddhaol, sy'n cynnwys datblygiad proffesiynol ar agweddau ar addysgu a dysgu, a hyfforddiant ar sut i fodloni anghenion lles disgyblion.  Mae ychydig o aelodau staff wedi arsylwi ei gilydd yn addysgu, ac mae cynlluniau ar waith i bob athro wneud hyn.  Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen hyfforddi yn cyfateb yn addas i anghenion unigol staff, ac nid yw bob amser wedi'i chysylltu'n ddigonol â blaenoriaethau gwella'r ganolfan.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi cyllid sylweddol i wella ansawdd yr adeilad ar safle Pwll.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff.  Fodd bynnag, mae diffygion yn yr adeilad ar safle Llwynhendy yn cael effaith negyddol ar ddeilliannau disgyblion.

Hefyd, gwnaed buddsoddiadau mewn offer a rhaglenni TGCh.  Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio eto gan nad yw'r ganolfan wedi cael cymorth technegol digonol gan yr awdurdod lleol.  O ganlyniad, nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi cael unrhyw effaith eto.

Nid oes gan yr UCD reolaeth dros ei chyllideb ei hun.  Mae'n gorfod cysylltu â'r awdurdod lleol felly pan fydd angen unrhyw adnoddau neu gyllid arni.  Mae hyn yn gwneud cynllunio ar gyfer y dyfodol yn anodd, gan nad yw rheolwyr yn gwybod faint o arian fydd ar gael.  Mae hefyd yn achosi problemau o ran rhedeg y ganolfan yn effeithlon o ddydd i ddydd.

O ystyried y deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r UCD yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 18 | 5 | 9 | 1 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 28% | 50% | 6% | 17% | |
| | | 53% | 43% | 3% | 2% | |
| The school deals well with any bullying | 18 | 4 | 6 | 5 | 3 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 22% | 33% | 28% | 17% | |
| | | 49% | 40% | 8% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 17 | 5 | 8 | 3 | 1 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 29% | 47% | 18% | 6% | |
| | | 51% | 39% | 6% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 18 | 1 | 9 | 5 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 6% | 50% | 28% | 17% | |
| | | 35% | 52% | 8% | 5% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 18 | 4 | 12 | 2 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 22% | 67% | 11% | 0% | |
| | | 37% | 45% | 15% | 4% | |
| I am doing well at school | 18 | 5 | 5 | 4 | 4 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 28% | 22% | 22% | |
| | | 42% | 46% | 8% | 4% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 15 | 2 | 13 | 0 | 0 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 13% | 87% | 0% | 0% | |
| | | 58% | 38% | 3% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 16 | 1 | 3 | 4 | 8 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 6% | 19% | 25% | 50% | |
| | | 20% | 43% | 18% | 19% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 17 | 4 | 7 | 4 | 2 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 24% | 41% | 24% | 12% | |
| | | 55% | 37% | 6% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 15 | 0 | 3 | 5 | 7 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 0% | 20% | 33% | 47% | |
| | | 24% | 51% | 20% | 5% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 16 | 3<br>19% | 8<br>50% | 4<br>25% | 1<br>6% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 57% | 34% | 6% | 3% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 18 | 4<br>22% | 8<br>44% | 4<br>22% | 2<br>11% | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 37% | 51% | 10% | 3% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 17 | 7<br>41% | 9<br>53% | 0<br>0% | 1<br>6% | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 44% | 50% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 15 | 4<br>27% | 10<br>67% | 1<br>7% | 0<br>0% | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 51% | 42% | 5% | 2% | |
| The staff respect me and my background | 16 | 6<br>38% | 9<br>56% | 0<br>0% | 1<br>6% | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 55% | 40% | 4% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 15 | 3<br>20% | 11<br>73% | 0<br>0% | 1<br>7% | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 48% | 45% | 5% | 2% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 15 | 6<br>40% | 6<br>40% | 2<br>13% | 1<br>7% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 33% | 52% | 8% | 7% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 8 | 3<br>38% | 4<br>50% | 1<br>12% | 0<br>0% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 31% | 39% | 13% | 17% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | | 79% | 20% | 2% | 0% | | | |
| My child likes this school. | 11 | | 5<br>45% | 4<br>36% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | | 66% | 31% | 4% | 0% | | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | | 77% | 23% | 1% | 0% | | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | | 4<br>36% | 5<br>45% | 1<br>9% | 1<br>9% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | | 68% | 28% | 4% | 0% | | | |
| Pupils behave well in school. | 9 | | 3<br>33% | 6<br>67% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | | 46% | 46% | 8% | 1% | | | |
| Teaching is good. | 11 | | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | | 75% | 25% | 0% | 0% | | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 0 | | 0<br>-2147483648% | 0<br>-2147483648% | 0<br>-2147483648% | 0<br>-2147483648% | 1 | | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | | 74% | 26% | 0% | 0% | | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 0 | | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | | 48% | 42% | 5% | 5% | | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | | 76% | 22% | 1% | 1% | | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | 64% | 31% | 4% | 1% | | | |
| My child is safe at school. | 11 | | 7<br>64% | 3<br>27% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | | 76% | 23% | 1% | 0% | | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 11 | | 6<br>55% | 5<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | | 75% | 23% | 2% | 1% | | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 77% | 21% | 2% | 0% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 82% | 16% | 1% | 0% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 33% | 4% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 1 | 1<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 75% | 22% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 11 | 4<br>36% | 4<br>36% | 1<br>9% | 2<br>18% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 57% | 30% | 8% | 5% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 72% | 23% | 3% | 2% | | |
| The school is well run. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 81% | 17% | 2% | 1% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Claire Yardley | Arolygydd Tîm |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Terry James Davies | Arolygydd Lleyg |
| Sian Davey | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nick Lloyd | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg